

Cyngor Cymuned Ganllwyd

Chwefror 10fed 2021

Presennol

Cyng. S.Roberts, Gavin Jones, C. Dixon a Cyng P. Jenkins.

Ymddiheuriadau:

Dim

Cofnodion Ionawr 2021.

Cynnigodd S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng Gavin Jones.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Materion yn codi.

Debynwyd ymateb isod gan y Parc (Alys Tatum) ynglyn y carafannau yn Beudy Goetre;

Ynghylch eich ymholiad mewn perthynas â dwy garafan yn Beudy Goetre, cysylltwyd â'r perchennog sydd wedi cadarnhau bod y ddwy garafan wedi bod ar y safle ers dros 20 mlynedd. Mae ffotograffau hanesyddol o'r awyr yn cadarnhau hyn. Felly mae'r carafannau yn gyfreithlon trwy'r amser y maent wedi bodoli ar y safle sy'n golygu nad oes unrhyw doriad cynllunio yma.

Clerc i ddiolch i Alys a'r rhan y cyngor am ei gwaith.

Cynghorydd Sir.

Ymwelwyr i'r ardal 2021- Mae'r cynghorwr wedi gyrru e-bost i swyddogion Cyngor Gwynedd mewn perthynas a problemau posibl a achosir gan nifer o ymwelwyr â'r ardal yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Mewn ymateb derbyniwyd y gwybodaeth isod gan y cyngor;

“Mae Cabinet y Cyngor wedi bod yn gwneud dipyn o waith i edrych ein cyfeiriad i ddatblygu twristiaeth yn y dyfodol a mesurau i ymateb i sefyllfa COVID. Mae gwaith yn cael ei wneud i ymateb i'r prif heriau a gododd yn ystod

2020 a chael trefniadau mewn lle erbyn tymor 2021. Mae'r prif faterion sydd wedi eu hadnabod yn cynnwys:

- Parcio anghyfreithlon
- Rheolaeth Traethau
- Cartrefi Modur a Champio Gwyllt
- Ysbwriel
- Gormodedd ymwelwyr mewn rhai cyrchfannau
- Cyfathrebu negeseuon mwyniant diogel
- Digwyddiadau

Mae grŵp traws adrannol wedi ei sefydlu ac mae'r Adran yma'n cydlynu'r gwaith o gael yr wybodaeth ynghyd gan Adrannau'r Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar y gwahanol elfennau. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda holl Aelodau'r Cyngor yn yr wythnosau nesaf i gadarnhau trefniadau."

Bydd y cynghorydd yn diweddarau y cyngor cymunedol ar ôl derbyn gwybodaeth bellach.

Ysgol Ganllwyd- Mae Cyngor Gwynedd wedi dod o hyd i berchnogion tir y mae Ysgol Gynradd Ganllwyd wedi'i leoli arno.

Mae'r broses o drosglwyddo perchnogaeth yr ysgol a'r tir yn ôl i'r perchnogion cyfreithiol ar y gweill.

Ar hyn o bryd ni fydd Cyngor Gwynedd yn datgelu hunaniaeth y perchnogion. Bydd y cynghorydd yn diweddarau'r cyngor cymunedol ynghylch hunaniaeth y perchnogion ar ddiwedd y broses gyfreithiol.

Tai gwyliau ac ail dai- Mewn ymateb i bryderon gan unigolion a sefydliadau etholedig ynghylch niferoedd a prisiau tai sydd ar gael i bobl leol dilyn cynnydd enfawr mewn cartrefi gwyliau a Gwely a Brechwast Awyr yn ein cymunedau mae aelodau Cyngor Gwynedd wedi trafod y pryderon ac wedi mabwysiadu polisi a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r polisi mewn grym ac yn orfodadwy yn gyfreithiol.

Bydd y cynghorwr yn dosbarthu copïau o'r polisi i'r cyngor cymunedol.

Materion ariannol.

Cyllid misol- Ionawr 2021.

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:	£6610.04
------------------------------	----------

Derbyniwyd:

Ad daliad TAW	£220.00
---------------	---------

Taliadau:

Cyflog/Paye	£100.00
-------------	---------

Yn y banc diwedd mis	£6730.04
----------------------	----------

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Awdit allanol 2019-20.

Mae'r archwiliad allanol a gynhaliwyd gan BDO i gyfrifon y cynghorau ar gyfer y cyfnod hwn wedi'i gwblhau.

Mae BDO wedi cwblhau adroddiad lle codwyd y materion canlynol;

Swyddog Ariannol Cyfrifol - dim dyddiad yn yr adran ardystio

Cronfeydd wrth gefn

Cofrestr Asedau

Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol

Mân faterion

Cadeirydd - dim dyddiad yn yr adran ardystio

Mae'n amlwg mai'r mater pwysicaf a godwyd gan BDO yw bod y cyngor yn dal i lawer o arian parod yn ei gyfrif cyfredol.

Nid yw lefel gyffredinol yr arian a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel arfer yn fwy na lefel y praesept.

Y balans cyfredol yw £ 6730 a'r praesept yn £ 3000.

Gofynnir i gynghorwyr fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf trwy nodi ffrydiau gwariant cyfreithiol.

Mae dogfennau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r archwiliad wedi'u harddangos ar wefan y cyngor ac yn y gymuned

Derbyniwyd canlyniadau'r archwiliad gan y cyngor a byddai'n gweithredu ar ei ddatganiadau.

Anfonebau;

Archwilio Cymru-£298.95 gwaith awdit 2019-20

Cynnal y wefan 2021- £197.00

Printer ink - £17.49

Awdurdododd y cynghorwyr dalu'r anfonebau hyn.

Archwiliad mewnol 2020-21

Cytunodd y cyngor i ofyn i adran cyllid Gyngor Gwynedd gynnal archwiliad mewnol y cyngor cymunedol am y cyfnod hwn.

Llythyrau & E.bost.

Dim.

Unrhyw fater arall.

Yn dilyn gwybodaeth a dderbyniwyd gan Dixon fod CNC wedi bod yn cwmpo coed o gwmpas Beech Rd gan achosi aflonyddwch lleol i'r rhai sy'n defnyddio ffordd. Mae pryder cynyddol gan y cyngor nad yw'r sefydliad hwn yn cysylltu'n llawn â'r gymuned a bod gwaith aflonyddgar yn cychwyn cael ei wneud heb yn

wybod i'r rhai sy'n byw yn lleol. Bu pryderon hefyd ynghylch rhwystro llwybrau troed cyhoeddus lleol a achosir gan waith o'r fath.

Cyng Dixonni yrru'r manylion llawn i 'r Cynghorwr Sir er mwyn iddo gysylltu a swyddogion CNC.